# Y Ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu Cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg – Mawrth 2016

# Paratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015

---

**Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

- Rydym wedi darparu gohebiaeth i staff am ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd, ateb y ffôn, cyfryngau cymdeithasol, recriwtio, negeseuon e-bost, arwyddion a chyfathrebu mewnol.
- Rydym wedi sicrhau bod staff yn cynnig trosglwyddo galwad i siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor (os nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg eu hunain).
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyr, gan gynnig cyfle i drigolion ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi hysbysu staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus y dylai pob gwahoddiad i'r cyfarfod fod yn ddwyieithog, y dylid trefnu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y gallant gyfrannu yn Gymraeg.
- Bydd yr holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd hyrwyddo a dogfennaeth arddangos.
- Mae'r rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar ein gwefan yn ddwyieithog.
- Mae'r holl arwyddion yn cael eu gwirio ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau.
- Mae arwyddion wedi cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd i ddatgan bod croeso i bobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae pob hysbysiad a hysbyseb cyhoeddus yn ddwyieithog
- Bydd pob ffurflen grant a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ymateb yn Gymraeg a bydd unrhyw gyfweliadau sydd eu hangen yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd os oes angen).
- Bydd unrhyw gwrs addysg a gynigiwn i'r cyhoedd yn cael ei gynnig yn y Gymraeg

**Safonau Gweithredu**

- Sut mae'r Cyngor yn mynd i gydymffurfio â safonau gweithredu y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw:
- Rydym wedi cynhyrchu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar ein mewnrwyd.
- Rydym wedi cyflwyno proses AD lle gofynnir i'r holl staff a ydynt yn dymuno cael eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.

- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â’u cyflogaeth ac sydd wedi’i gyfeirio atynt yn bersonol (yn Gymraeg).
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â’u hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn y Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu cynllun gyrfa yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg yn y Gymraeg.
- Mae'r staff yn gallu gwneud cwynion yn Gymraeg drwy'r drefn gwyno gorfforaethol ac mae staff yn gwybod am hyn.
- Mae Gweithdrefn Gwyno Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi y gall staff wneud cwyn yn y Gymraeg ac mae ganddynt hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg. Mae'r staff wedi cael gwybod am yr hawl honno.
- Bydd y staff yn cael cynnig cyfle i gynnal unrhyw gyfarfodydd ynglŷn â chwynion a wneir yn eu herbyn yn y Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd unrhyw gofnod o benderfyniad sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg (a bydd unrhyw gyfarfod dilynol yn cael ei gynnal yn Gymraeg).
- Mae ein polisïau Adnoddau Dynol yn datgan y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg wedi cael ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg a darperir rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (megis Microsoft Word) pan fo staff yn dymuno cael hynny.
- Mae testun ein hafan dudalen ar y fewnrwyd yn Gymraeg.
- Mae unrhyw dudalennau ar y fewnrwyd sydd â thudalennau cyfatebol yn Gymraeg yn cynnwys dolen gyswllt uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg.
- Mae tudalennau wedi cael eu creu ar y fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynorthwyo staff wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a dewislenni ar y fewnrwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr trwy hunanasesiad.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i weithwyr gael cyrsiau Cymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i staff sydd eisiau gwella eu hyfforddiant Cymraeg sylfaenol drwy gynnig hyfforddiant pellach.

- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu, er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Darperir gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i bob aelod o staff newydd.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff ddefnyddio ar eu llofnod e-bost, i hysbysu pobl a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.

**Safonau Llunio Polisi**

- Byddwn yn hysbysu rheolwyr i ystyried effeithiau unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiadau i'r polisi) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a sicrhau nad yw’r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio, byddwn yn sicrhau bod yr holl reolwyr yn gwybod am yr angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyflwyno adran ar adroddiadau ffurfiol y Cyngor a fydd yn dangos pa fath o ystyriaeth sydd wedi’i roi i'r iaith Gymraeg.
- Os caiff ymchwil ei gomisiynu a fwriedir i gynorthwyo gyda llunio polisïau, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Byddwn yn rhoi gwybod i reolwyr er mwyn sicrhau bod unrhyw ymgynghori ar bolisïau yn cynnig cyfle i bobl wneud sylwadau ar effeithiau unrhyw bolisïau newydd ar y defnydd o’r iaith Gymraeg.
- Byddwn yn cyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau.

**Cadw Cofnodion**

- Byddwn yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau a byddwn yn adrodd yn ôl i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol.
- Byddwn yn cadw copi o'r cwynion ysgrifenedig a gawn ac yn cysoni unrhyw gwynion a fydd yn cael eu cadw'n ganolog gan y Tîm Cyfathrebu.
- Byddwn yn cadw cofnod o nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg drwy roi’r wybodaeth ar ein systemau Adnoddau Dynol.
- Byddwn yn cynnal archwiliad blynyddol o nifer y swyddi lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, angen dysgu Cymraeg pan gânt eu penodi i'r swydd, lle mae cyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol a lle nad yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.
- Byddwn yn cadw cofnod o (a) nifer yr aelodau o staff wnaeth fynychu cyrsiau hyfforddiant (yn unol â safon 128) a (b) os oedd fersiwn Gymraeg o’r cwrs yn cael ei gynnig yn unol â safon 128, canran y nifer o staff wnaeth fynychu’r cwrs hwnnw.